



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Gwybodaeth am Ymuno i Fyfyrwyr Newydd

Rhaglenni Ôl-raddedig,
Rhan-amser ac Ymchwil
2017/18

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents

Llongyfarchiadau

ar sicrhau'ch lle ym
Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd!



Rydym ni'n falch dros ben eich bod chi'n ymuno
â ni ac yn edrych ymlaen at eich croesawu chi ar
y campws

Bydd angen i chi drefnu cant a mil o bethau rhwng nawr a chyrraedd y brifysgol. Rydym ni wedi crynhoi'r wybodaeth hon i'ch helpu yn ystod eich wythnosau cyntaf gyda ni, ac i helpu i sicrhau eich bod chi'n cwblhau popeth ar yr amser cywir.

Ar gyfer pob un o'r pynciau dan sylw yn y pecyn hwn, rydym wedi cynnwys yr holl ddolenni gwe angenrheidiol lle gallwch gael gwybodaeth fanylach a/neu ffurflenni i'w cwblhau. Yn bwysicach oll, mae'n eich cyfeirio at eich **Gwybodaeth am Ymuno â Rhaglen**.

Mae'n hollbwysig i chi ddarllen y llyfryn hwn a'ch Gwybodaeth am Ymuno â Rhaglen cyn dechrau'ch rhaglen. Os na wnewch chi hyn, gallech golli gwybodaeth hanfodol. Os cewch drafferth yn cael gafael ar unrhyw elfen o'r wybodaeth, cysylltwch â:

Derbyniadau

☎ 029 2041 6010

✉ askadmissions@cardiffmet.ac.uk

🐦 [@cmetadmissions](https://twitter.com/cmetadmissions)



Gwybodaeth am Ymuno â Rhaglen ac Ymsefydlu

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents

Dyma'r man i ddod o hyd i Wybodaeth am Ymuno â Rhaglen, a bydd angen i chi ddarllen y wybodaeth hon cyn dechrau'r rhaglen. Bydd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol y bydd angen i chi ei gwybod ac sydd wedi ei chrynhof'n ofalus gan Gyfarwyddwr eich Rhaglen a'r tîm addysgu. Mae disgwyl i chi ddarllen y wybodaeth hon i sicrhau eich bod chi'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion arbennig sydd gan y rhaglen cyn cychwyn.



Dyddiadau Tymor

Tymor yr Hydref:

Llun 25 Medi 2017 – Gwe 15 Rhagfyr 2017

Tymor y Gwanwyn:

Llun 15 Ionawr 2018 - Gwe 23 Mawrth 2018

Tymor yr Haf:

Llun 16 Ebrill 2018 - Gwe 15 Mehefin 2018



Cofrestru Ar-lein

Mae cofrestru yn broses bwysig, sy'n cadarnhau eich statws fel myfyriwr Met Caerdydd. Gallwch gwblhau'r broses hunan-gofrestru ar-lein ar unrhyw gyfrifiadur drwy ein 'System Hunan-wasanaeth'.

Byddwch yn derbyn e-bost yn dweud pryd rydych chi'n gymwys i gofrestru. Bydd yr e-bost yn cynnwys manylion sut i gwblhau'r broses gofrestru. Byddwch yn gallu defnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a gafodd eu creu wrth wneud eich cais gwreiddiol i fewngofnodi a chwblhau'ch cofrestrriad.

Yn y cyfamser, i gael rhagor o wybodaeth am y broses gofrestru, trowch at www.cardiffmet.ac.uk/enrolment

Os nad ydych chi wedi cael e-bost bythefnos cyn dechrau'ch rhaglen, cysylltwch â Derbyniadau fel y gallwch chi gofrestru cyn i chi gyrraedd y Brifysgol.

Yn ystod y broses gofrestru ar-lein, bydd rhaid i chi gadarnhau manylion penodol a dewis modiwlau. Os nad yw'r wybodaeth yn gywir, rhoch wybod i'r Tîm Cofrestru.

Mae'r broses gofrestru yn hanfodol, gan y bydd yn eich galluogi i ddefnyddio systemau TG Met Caerdydd, talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetCard Myfyriwr.

Os cewch drafferth gydag unrhyw agwedd ar y broses gofrestru, cysylltwch â:

Y Tîm Cofrestru:

☎ 029 2020 5669

✉ enrolment@cardiffmet.ac.uk

🐦 www.cardiffmet.ac.uk/enrolment



Ffioedd Dysgu a Chyllid Myfyrwyr

Ffioedd a Chyllid

Fel myfyrwr ôl-raddedig, ymchwil neu ran-amser, bydd eich ffioedd dysgu yn dibynnu ar eich rhaglen astudio. Bydd rhai rhaglenni'n codi costau eraill ar ben y ffioedd.

Benthyciadau i Ôl-raddedigion

O flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig Benthyciad i Ôl-raddedigion o hyd at £10,280 i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fel rheol ac yn dymuno astudio ar lefel Meistr.

Ysgoloriaeth Ôl-raddedig

Mae Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Met Caerdydd yn cael ei rhoi i fyfyrwyr o'r DU neu'r UE sydd wedi cael gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf ac sy'n mynd ymlaen i astudio'n ôl-raddedig. Bydd y dyfarniad yn cyfrannu £3,000 tuag at eich ffioedd dysgu. Dim ond nifer cyfyngedig o ddyfarniadau sydd ar gael.

Dyfarniad Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr

Mae Gostyngiad i Gyn-fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn rhoi gostyngiad o 20% ar ffioedd dysgu i Gyn-fyfyrwyr Met Caerdydd sy'n cofrestru ar raglenni ôl-raddedig a addysgir sy'n dechrau yn 2017. Mae cymhwysra ac eithriadau yn berthnasol.

I wybod mwy am yr uchod, ewch i:
www.cardiffmet.ac.uk/fees

I gael gwybodaeth gyffredinol, darllenwch ein canllaw ar ffioedd dysgu yn:
www.cardiffmet.ac.uk/payingfees

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â:

☎ 029 2041 6083

✉ tuitionfees@cardiffmet.ac.uk



Eich Prifysgol

Siarter Myfyrwyr

Mae'r Siarter Myfyrwyr yn amlinellu safonau'r gwasanaeth y mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ceisio'u cynnig i'w myfyrwyr. Mae'n amlinellu hefyd yr hyn rydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi.

Trwy wrando ar farn myfyrwyr drwy ystod o ddulliau a defnyddio'u hadborth, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn sicrhau ei bod hi'n parhau i wella ei gwasanaethau a chynyddu lefelau boddhad ymhlith myfyrwyr yn uwch eto er mwyn gwneud dysgu myfyrwyr yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Gallwch weld y Siarter Myfyrwyr yn www.cardiffmet.ac.uk/studentcharter.

Llawlyfr Myfyrwyr

Mae'ch Llawlyfr Myfyrwyr wedi'i baratoi i roi canllaw hwylus i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd o amgylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael i chi pan fyddwch chi'n astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae hefyd yn amlinellu'r rheolau a rheoliadau perthnasol y mae'n rhaid i chi gadw atynt, er enghraifft, ein rheoliadau academaidd. Felly, mae'n bwysig i chi ymgynefino'ch hun â chynnwys y llawlyfr yn

www.cardiffmet.ac.uk/studenthandbook, fel eich bod yn ymwybodol o reoliadau cyfredol, y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i chi a sut i gael gafael arnynt.

Gwasanaethau Myfyrwyr

Mae gennym rwydwaith helaeth o gymorth i'ch helpu i ymaddasu i fywyd myfyriwr a gwneud y gorau ohono. Mae'n cynnwys cwnsela, gwasanaeth anabled, gwasanaeth iechyd i fyfyrwyr, cyngor ar gyllid a lles myfyrwyr, caplaniaeth aml-ffydd a'r parth-g, siop un stop ar gyfer cyngor ac ymholiadau ym Met Caerdydd. Rydym ni eisiau i chi deimlo eich bod chi'n byw a dysgu mewn amgylchedd cefnogol a chadarnhaol.

Gallwch gael mynediad at ein gwasanaeth cymorth i gyd yn

www.cardiffmet.ac.uk/studentsservices

Cysylltu â ni:

 029 2041 6170

 disability@cardiffmet.ac.uk

financeadvice@cardiffmet.ac.uk

healthservice@cardiffmet.ac.uk

welfareadvice@cardiffmet.ac.uk

careers@cardiffmet.ac.uk

Chwaraeon ym Met Caerdydd

Gydol eich amser ym Met Caerdydd, fe'ch anogir i fyw bywyd iach ac actif. Bydd Aelodaeth Chwaraeon a Ffitrwydd yn golygu y gallwch fanteisio ar y cyfleusterau a rhaglenni gwych sydd ar gael ar y ddau gampws, ac mae'r Undebau Myfyrwyr ac Athletau yn rhoi cyfleoedd i chi gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon. Waeth a ydych chi eisiau cystadlu mewn campau elit, neu am gymryd rhan i gael hwyl, mae gennym gyfleoedd o bob math i fyfyrwyr o bob ysgol academaidd gymryd rhan mewn chwaraeon.

I gael gwybodaeth bellach:

www.cardiffmet.ac.uk/sport

Undeb y Myfyrwyr

Mae pob myfyriwr ym Met Caerdydd yn dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr fel mater o drefn. Nod yr undeb yw cynrychioli, cynorthwyo, ysbrydoli a chynnwys pob myfyriwr. Mae'n cynnig cyfleoedd di-ri i chi gymryd rhan a gwneud y mwyaf o'ch profiad yn y brifysgol. Anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod, gofodau ymlacio ac archebu lleoedd undeb y myfyrwyr am ddim ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol.

I gael gwybodaeth bellach

www.cardiffmetsu.co.uk



Eich Profiad o Fywyd Myfyriwr

Bywyd Caerdydd

Mae'n siŵr bod gennych chi ryw syniad o'r hyn sydd gan Gaerdydd i'w gynnig erbyn hyn, ond dyma rywbeth i'ch atgoffa pam y byddwch chi'n falch o alw'n dinas yn gartref i chi dros y blynyddoedd nesaf. Mae gan Gaerdydd holl fanteision prifddinas: atyniadau diwylliannol, bywyd nos bywiog, digonedd o fariau a thai bwyta, i gyd o fewn tafliad carreg yng nghanol y ddinas. Os mai bywyd sy'n mynd â'ch bryd, mae'r arlwy wedi gwella cryn dipyn dros y 18 mis diwethaf; mae Caerdydd wedi denu rhai o'r enwau mawr fel Five Guys, Wahaca a Shake

Shack, ond os nad yw'r rheini at eich dant, bydd y tai bwyta a'r busnesau tecawê annibynnol yng nghadarnleoedd myfyrrwyr y Rhath a Threganna yn gallu bodloni unrhyw archwaeth, o falafel i fwyd Tsieineaidd.

Diolch i 'chwyldro bwyd stryd' y ddinas, mae amrywiaeth o werthwyr bwyd annibynnol wedi ymddangos mewn lleoliadau go anghyffredin fel y DEPOT; warws 24,000 troedfedd sgwâr segur sydd wedi'i weddnewid yn fecca ar gyfer cwrw crefft a gwledda anffurfiol.

Mae Caerdydd yn enwog am gynnal digwyddiadau chwaraeon. Ymunwch â'r dorf yn Stadiwm y Principality – stadiwm sy'n dal 73,000 ac yng nghanol y ddinas go iawn, ewch i weld gêm griced yn SSE SWALEC neu ewch i fwynhau gêm bêl-droed yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Os mai cerddoriaeth sy'n mynd â'ch bryd, bydd yna rywle i blesio pawb, o gigs indie bach yng Nghlwb Ifor Bach neu Gwdihw i berfformwyr byd-enwog yn Arena Motorpoint neu Stadiwm y Principality. Mae Caerdydd yn gyrchfan siopa poblogaidd, gan gynnig cydbwysedd o siopau'r stryd fawr yng nghanolfan siopa Dewi Sant ar ei newydd wedd, a siopau bach annibynnol yn rhwydwaith y ddinas o arcedau Fictoriaiaidd godidog.

Does dim prinder lleoedd i'w harchwilio a phethau i'w gwneud yng Nghaerdydd ac rydym ni'n siŵr y cewch chi amser bendigedig gyda ni yma ym mhrifddinas Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

Gallwch fynd i'n gwefan bywyd myfyrrwyr i weld beth arall sydd gennym i'w gynnig:
www.cardiffmet.ac.uk/studentlife




Ein ap symudol am ddim i fyfyrwyr, sy'n cynnwys y nodweddion canlynol:

- ✓ Mynediad at yr e-bost
- ✓ Mynediad at wasanaethau llyfrgell
- ✓ Amseroedd bysys
- ✓ Manylion Personol ac Academaidd
- ✓ Gweld a oes cyfrifiaduron yn rhydd
- ✓ Mynediad at Moodle (Amgylchedd Dysgu Rhithwir)
- ✓ Lleoliadau a map o'r campws
- ✓ Amserlen Personol

www.cardiffmet.ac.uk/mycardiffmet

O Amgylch y Campws



Campws Llandaf

Allwedd


- 1 Ysgol Reoli Caerdydd
- 2 Y Ganolfan Technoleg Ddeintyddol
- 3 Y Ganolfan Diwydiant Bwyd (FIC)
- 4 Darlithfa
- 5 Llyfrgell
- 6 Prif Neuadd
- 7 Prif Dderbynfya/parthG
- 8 Derbynfya
- 9 Y Gofrestrfa
- 10 Canolfan Myfyrwyr
- 11 Gwasanaethau Myfyrwyr

- 1 Bloc A
- 2 Ysgol Gelf a Dylunio
- 3 Bloc C
- 4 Bloc D
- 5 Bloc E
- 6 Bloc F
- 7 Ysgol Gelf a Dylunio
- 8 Bloc M
- 9 Bloc O
- 10 Bloc P
- 11 Bloc T
- 12 Tŷ Ymchwil

- Parcio
- Beics
- Safle Bws
- 2 - City Circle
- 15 - Ysbyty Athrofaol i'r Orsaf Ganolog

Campus Main Entrance

Gall fod yn anodd dod i adnabod eich cartref newydd yn yr wythnosau cyntaf. Defnyddiwch y mapiau hwylus hyn o'r ddau gampws i'ch helpu i ddod o hyd i'ch ffordd o gwmpas.



Campws Cyncoed

Allwedd

- 1 Caffi Bench
- 2 Tŷ'r Coleg
- 3 Y Ganolfan Dawns
- 4 Bloc V
- 5 Campfa Cynhwysiant
- 6 Tŷ Bwyta K1
- 7 Darlithfa
- 8 Llyfrgell
- 9 Pwll
- 10 Derbynfa/parthC
- 11 Campfa Russell Rees
- 12 Campfa Sid Aaron
- 13 Neuadd Chwaraeon

- Parcio
- Beics
- Arhosfan Bws

- 14 Undeb y Myfyrwyr
- 15 Tŷ Warwick
- 16 Gweithdy Cynnal a Chadw Ystadau
- 17 Ysgol Goedwig
- 18 Tŷ Athletwr

Neuaddau Preswyl

- 1 Baltimore
- 2 Bute
- 3 Clare
- 4 Ellis
- 5 Fizthamon
- 6 Herbert
- 7 Nantes
- 8 Neville
- 9 Queenswood
- 10 Stradling
- 11 Stuttgart
- 12 Tŷ Thomas
- 13 Byngalo



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Eich rhestr wirio

- ✓ Rydw i wedi mynd i'r tudalennau gwe ar ffioedd dysgu - www.cardiffmet.ac.uk/fees - a darllen y wybodaeth yn y canllaw ar ffioedd dysgu am daliadau
- ✓ Rydw i wedi anfon prawf o fy nghymwysterau i gyd drwy sganio ac e-bostio fy nhystysgrifau i: non-ucas_apps-qualifications@cardiffmet.ac.uk
- ✓ Rydw i wedi mynd i'r wefan ar gyfer myfyrwyr newydd i gael fy Ngwybodaeth am Ymuno â'r Rhaglen yn: www.cardiffmet.ac.uk/newstudents
- ✓ Rydw i wedi mynd i'r wefan ar gyfer myfyrwyr newydd a gwneud yn siŵr bod gan Met Caerdydd fy nghyfeiriad e-bost cywir fel nad wy'n colli unrhyw wybodaeth bwysig am fy rhaglen
- ✓ Rydw i wedi darllen y Starter Myfyrwyr:
www.cardiffmet.ac.uk/studentcharter a'r Llawlyfr Myfyrwyr:
www.cardiffmet.ac.uk/studenthandbook
- ✓ Rydw i wedi darllen a deall Telerau ac Amodau fy nghynnig:
www.cardiffmet.ac.uk/terms

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents